



**Cyfoeth  
Naturiol  
Cymru**  
**Natural  
Resources  
Wales**

Adain Polisi Treth a Deddfwriaeth  
Ail Lawr Gorllewin  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

## **Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru i: ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ynghylch treth gwaredu tirlenwi**

Rydym ni'n croesawu'r cyfle i fanteisio ar yr ymgynghoriad hwn i gyflwyno ein barn ac i gydnabod bod trosglwyddo pwerau codi treth i Lywodraeth Cymru yn gam arwyddocaol mewn datganoli i Gymru. Rydym ni'n cael ein cynrychioli ar Fwrdd Prosiect Treth Tirlenwi Cymru ac ar Grŵp Arbenigwyr Technegol Treth Tirlenwi. Drwy'r grwpiau hyn, rydym ni wedi bod yn gweithio gyda chi i ystyried pa swyddogaeth, a pha gyfleoedd a allai godi, i Cyfoeth Naturiol Cymru o ran Treth Tirlenwi Cymru.

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw ceisio rheoli adnoddau naturiol Cymru'n gynaliadwy a chymhwysu egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n gweithio fel rheoleiddiwr, partner ac ymgynghorydd i fusnesau, sefydliadau anllywodraethol, awdurdodau lleol a chymunedau i helpu gwireddu polisiau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd. Rdym ni'n dilyn dull rheoli ar lefel yr ecosystem wrth hyrwyddo rheoli adnoddau naturiol yn gyfun - a fydd yn arwain at fuddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol i bobl Cymru.

Rydym ni wedi dangos drwy ein hymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ynghylch y Papur Gwyn "Casglu a rheoli treth a ddatganolwyd i Gymru" nad ydym ni'n dymuno cael ein hystyried ar gyfer swyddogaeth casglu a rheoli ar hyn o bryd, ond, o gydnabod y gallai fod yna synergeddau rhwng ein swyddogaeth reolaethol ar hyn o bryd a'r drefn treth tirlenwi sy'n ymddangos, rydym ni wedi ymrwymo i ddarparu trefn fwy effeithiol o gydymffurfio a gorfodi yng Nghymru ac yn gweithio ar y rhagdybiaeth y byddai unrhyw swyddogaeth ychwanegol yn cael ei hariannu'n llawn.

Rwy'n gobeithio y bydd y sylwadau a'r argymhellion hyn o ddefnydd. Os hoffech holi ymhellach ynghylch ein sylwadau, cysylltwch â Becky Favager, Rheolwr Gwastraff ac Adnoddau [rebecca.favager@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:rebecca.favager@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)

Yn gywir

Ceri Davies

**Cyfarwyddwr Gweithredol, Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio**

#### **Cwestiwn 1: Pa mor bwysig yw hi fod trefn Llywodraeth Cymru ynghylch y Dreth Tirlenwi yn gyson â rhai Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban, a pham?**

Rydym ni o'r farn y gallai fod yn hynod fuddiol bod trefn Llywodraeth Cymru yn gyson â rhai Llywodraethau'r DU a'r Alban. Y Dreth Tirlenwi, a gyflwynwyd ym 1996, oedd treth amgylcheddol gyntaf y DU ac roedd yn allweddol mewn galluogi'r DU i gyrraedd ei thargedau ar gyfer tirlenwi gwastraff trefol biogdiraddadwy fel sy'n cael ei ddangos yn y [Gyfarwyddeb Tirlenwi](#).

Treth yw'r Dreth Tirlenwi ar waredu gwastraff mewn safleoedd claddu gwastraff. Mae'n anogaeth gref i gynhyrchwyr gwastraff gynhyrchu llai ohono, i adfer mwy o werth o wastraff, er enghraifft, drwy ailgylchu neu gompositio ac i ddefnyddio dulliau mwy amgylcheddol gyfeillgar o reoli gwastraff. Drwy gynyddu costau tirlenwi, daw [technologau blaengar trin gwastraff](#) eraill gyda ffioedd clwyd uwch yn fwy deniadol yn ariannol. Dangoswyd pa mor effeithiol yw'r dreth hon mewn newid ymddygiad gan y gostyngiad yn y gwastraff a anfonwyd i'w waredu mewn safleoedd tirlenwi yng Nghymru. Gostyngodd swm y gwastraff a waredwyd mewn safleoedd tirlenwi yng Nghymru o 4.5 miliwn i 2.1 miliwn tonnall rhwng 2000 a 2013.

Gan fod yna ardaloedd trefol mawr o boptu'r ffin rhwng Cymru a Lloegr, gallai hyd yn oed newidiadau cymharol fychan mewn cyfraddau treth achosi cryn newid mewn llif gwastraff. Gallai annog 'twristiaeth gwastraff' rhwng rhannau o'r DU a allai amharu ar fusnesau rheoli gwastraff yng Nghymru sy'n bidio yn erbyn cystadleuwyr o rannau eraill o'r DU. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd ystyried pa effaith allai hynny ei gael ar ddatblygu contractau gwastraff rhanbarthol, hir dymor. Er mai ar drefniadau rheoli gwastraff trefol awdurdodau lleol y mae hyn yn effeithio fwyaf, byddai bron yn sicr y byddai'r model busnes yn cynnwys elfen o wastraff masnachol, ac y byddai'n annhebygol y byddai hynny wedi'i ystyried neu ei gymhwyso wrth ystyried newid y cyfraddau treth.

Rydym ni o'r farn y dylai llywodraethau gydweithredu wrth sefydlu cyfraddau a ffioedd os yw trethiant i lwyddo i gael yr ymateb amgylcheddol gorau a bod rheoli gwastraff yn cael ei drin yn uwch yn hierarchaeth gwastraff ger lle y mae'n cael ei gynhyrchu. Rydym ni hefyd yn cydnabod fod yn rhaid i'r gymuned fusnes gael sicrwydd a chysondeb er mwyn gallu ymateb i unrhyw gynigion. Byddai'n ddefnyddiol pe byddai newidiadau yn cael eu hegluro mor gynnar ac mor agored â phosibl.

#### **Cwestiwn 2: A yw'r cyfraddau treth safonol ac is wedi'u gosod ar lefel briodol ar gyfer Cymru? Eglurwch eich ymateb.**

##### **Cyfradd Safonol**

Rydym ni o'r farn fod y gyfradd safonol wedi'i gosod ar lefel briodol ar gyfer Cymru. Fel yr amlygwyd yn ein hymateb i'r cwestiwn blaenorol, mae'r ffaith y gallwyd lleihau, o fwy na 50%, y gwastraff trefol biogdiraddadwy sy'n cael ei anfon i dirlenwi yn dangos y cafwyd llwyddiant wrth weithredu ac esgyn cyfradd safonol y dreth. Fe fyddem ni'n bryderus pe byddai'r gyfradd safonol yn cael ei newid yng Nghymru; gallai hynny ystumio a pheri niwed i ymarferion presennol trin gwastraff a gwanhau'r trefniadau allweddol i gyrraedd y targedau uchelgeisiol sydd wedi'u gosod yn Tuag at Ddyfodol Diwastraff.

##### **Cyfradd is, 'anweithredol'**

Nid ydym yn credu fod y gyfradd is bresennol yn rhoi digon o anogaeth i adfer gwastraff yn effeithiol a'i ddargyfeirio rhag cael ei dirlenwi. Ers ei gyflwyno, mae cyfradd anogaeth y Dreth Tirlenwi wedi aros yn isel ac nid yw wedi dilyn y newid prisiau yn yr economi ehangach. Rydym ni'n cydnabod ei bod yn anodd gwahaniaethu rhwng effaith y newid yn

y gyfradd ac effaith y dirwasgiad ar ôl 2008 a'i bod yn anodd, felly, asesu pa mor effeithiol yw'r gyfradd treth is mewn newid ymddygiad neu ddewisiadau rheoli cynhyrchwyr gwastraff cymwys. Mae yna nifer o ddewisiadau sydd wedi'u hen sefydlu ar gyfer adfer. Dylid eu hannog, yn hytrach na gwaredu drwy dirlenwi, a byddwn yn annog Llywodraeth Cymru i fanteisio ar y cyfle hwn i ystyried cynyddu'r gyfradd is.

### **Cwestiwn 3: A oes yna werth yn y ffaith fod Llywodraeth Cymru'n gallu gosod cyfraddau gwahanol is o'r dreth (fel yr eglurir ym mharagraff 2.10 - 2.11) a pham?**

Byddwn yn gefnogol i Lywodraeth Cymru allu newid cyfraddau'r dreth. Byddai hyn yn ffordd o gael cyfraddau treth a fyddai'n ymateb ac yn gwireddu amcanion polisi yng Nghymru neu i gyd-fynd ag unrhyw newidiadau yn yr Alban neu Loegr. Rydym yn argymhell y dylid ystyried cyn cyflwyno canlyniadau unrhyw newid a argymhellir i'r cyfraddau, er enghraifft a fyddai llif gwastraff yn newid ac a fyddai'n dylanwadu ar droseddau gwastraff.

### **Cwestiwn 4: A ddylid ystyried unrhyw newidiadau yn y rhestr o ddefnyddiau sy'n gymwys ar gyfer y gyfradd is o dreth, ac ar ba sail?**

Rydym ni o'r farn fod yna fanteision sylfaenol, a drafodir uchod, mewn sicrhau dulliau cyson a chadw'r rhestr rywbeth yn debyg ym mhob rhan o'r DU.

Rydym ni'n cydnabod bod yna anghysonderau rhwng yr hyn sy'n cael ei ddiffinio fel anadweithiol ar gyfer dibenion rheoleiddio gwastraff a'r hyn sy'n cael ei ddiffinio fel anadweithiol ar gyfer dibenion trethiant. Gallai cyfuno'r ddwy system ddsbarthu, fel mai dim ond defnyddiau an-adweithiol sy'n gymwys ar gyfer y gyfradd is, annog rheoli ffrydiau gwastraff an-adweithiol yn well. Gallai hynny hefyd gael effaith economaidd arwyddocaol ar gynhyrchwyr gwastraff diwydiannol mawr yng Nghymru.

Byddai gofyn cynnal gwaith modelu manwl, a gwrando ar brofiadau sydd ar gael o wledydd eraill, er mwyn gallu ystyried y canlyniadau a allai godi, yn bositif ac yn negyddol, ac osgoi canlyniadau gwrthysig.

### **Cwestiwn 5: Beth fyddai goblygiadau ymarferol cyflwyno trothwy i ddiffinio 'swm bychan' o wastraff anghymwys mewn llwyth o ddefnydd cymwys.**

Ein hargymhelliad cryf ni yw na ddylid cyflwyno trothwy i ddiffinio swm bychan. Yn ein profiad ni o reoleiddio adnoddau gwastraff, mae'n well defnyddio synnwyr cyffredin wrth dderbyn gwastraff a derbyn dim ond gwastraff anghymwys sy'n bresennol drwy ddamwain. Rydym yn rhagweld y byddai cyflwyno trothwy, yn ymarferol, yn arwain rhai rhannau o'r diwydiant i ddefnyddio dulliau llai effeithiol o sgrinio a thrin gwastraff yn ei ffynhonnell gyda rhai gweithredwyr, efallai, yn fwriadol gymysgu gwastraff i gyrraedd y trothwy. Byddai cyflwyno trothwy o 10% yn cyfreithloni gwaredu 10% o wastraff cyfradd uwch ar y gyfradd is. Yn ogystal ag annog ymarferion gwael o drin gwastraff, byddai hyn hefyd yn cyfreithloni osgoi treth.

### **Cwestiwn 6: A fydddech chi'n cefnogi cyflwyno prawf Colli wrth Danio yng Nghymru pan ddatganolir Treth Tirlenwi? Eglurwch eich rhesymau.**

Byddwn yn cefnogi cyflwyno prawf Colli wrth Danio yng Nghymru. Cyflwynwyd y prawf hwn mewn ymateb i bryderon nad oedd yna dulliau cyson y gallai gweithredwyr a'r rheoleiddwyr eu defnyddio i asesu pa defnyddiau sy'n cael eu trethu ar y gyfradd is ac uwch. Rydym ni o'r farn fod yn rhaid cael prawf cyson cyn y gellir gweithredu'r cynllun yn llwyddiannus. Mae'r Gymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol wedi cefnogi cynllun y DU a fydda'n deg â phawb ac yn lleihau camddosbarthu. Rydym yn deall fod yr Alban yn defnyddio methodoleg wahanol i un Lloegr ac yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru

ddysgu o'r profiad hwnnw ac ymgynghori â chyrrff eraill cyn datblygu unrhyw brawf yng Nghymru.

**Cwestiwn 7: A oes yna unrhyw drafferthion yn codi o'r trefniadau presennol ar gyfer diffinio'r manau lle mae gwaredu trethadwy'n digwydd, ac, os felly, sut y gellid eu hosgoi?**

Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw broblemau gyda'r trefniadau presennol, er ein bod yn cydnabod y gallai dryswch godi rhwng y gwahanol fathau o wastraff sy'n cael eu gadael i'w adfer ar safleoedd tirlenwi. Byddwn yn argymhell y dylai'r manau gwaredu trethadwy gyd-fynd â'r terfynnau a ddangosir ar drwyddedau amgylcheddol adnoddau safleoedd tirlenwi a chyda chynlluniau rheoli'r gweithredwyr. Byddwn hefyd yn argymhell y dylai gweithredwyr safleoedd tirlenwi gadw cofnod cywir o fwriad a defnydd pen draw y gwastraff sy'n cyrraedd y manau gwaredu.

**Cwestiwn 8: Yn eich barn chi, a oes unrhyw drafferthion gyda'r trefniadau presennol o roi credyd am ddefnydd tirlenwi sy'n cael ei symud yn barhaol o safleoedd tirlenwi ac, os oes, sut y gellir eu datrys?**

Dydym ni ddim wedi cael unrhyw brofiad o hyn yn digwydd yn ymarferol. Byddwn yn argymhell y dylai gweithredwyr safleoedd tirlenwi sicrhau bod unrhyw ddefnyddiau sy'n cael eu symud yn cael eu cofnodi'n gywir, gan gynnwys eu cyrchfan terfynol.

**Cwestiwn 9: Beth fyddai canlyniadau ymarferol deddfu ar sail fod pob defnydd sy'n cyrraedd safle tirlenwi (heblaw'r rhai sydd wedi'u heithrio'n benodol) yn cael ei drethu?**

Byddwn yn annog Llywodraeth Cymru i ddefnyddio synnwyr cyffredin fel bod defnyddiau sy'n cyrraedd safle tirlenwi, nad oes bwriad eu gwaredu fel gwastraff, e.e. peiriannau cywasgu, yn cael eu heithrio o'r gofynion treth. Rydym ni o'r farn y byddai hefyd yn ddefnyddiol sicrhau fod unrhyw eithriadau'n cael eu diffinio'n eglur. Mae'n hanfodol fod pob gweithredydd yn cadw cofnod cywir o faint o bob math o wastraff sy'n cael ei dderbyn.

**Cwestiwn 10: Pa weithgareddau fyddech chi'n ddisgwyl fyddai'n cael eu heithrio (dim treth yn cael ei godi). Pam?**

Byddwn yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried eithrio o'r dreth weithgareddau a fyddai'n annog ailgylchu neu adfer yn hytrach na gwaredu, neu os yw gweithgaredd yn amlwg o fantais drwy leihau baich gweinyddol diangen.

Rydym ni o'r farn fod yr eithriadau yn y drefn bresennol yn addas ac y dylid, felly, eu cadw yn y darpariaethau ar gyfer Cymru. Mae'r eithriadau hyn yn annog ail ddefnyddio defnyddiau ar safle, os yn addas, heb gymylu amcanion y drefn trethu.

**Cwestiwn 11: A oes gennych chi unrhyw awgrymiadau eraill sut y gellir ei gwneud yn glir y gwahaniaeth rhwng gweithgareddau trethadwy a rhai anhrethadwy ar safleoedd tirlenwi a beth fyddai canlyniadau ymarferol y rhain?**

Rydym yn awgrymu y dylai systemau rheoli / cynlluniau gweithredu safleoedd gweithredwyr gynnwys gwybodaeth sy'n dangos yn eglur leoliad a'r mathau o weithgareddau sy'n cael eu cynnal.

## **Cwestiwn 12: Ydych chi'n meddwl y dylid cael gwared ar, neu newid, unrhyw un o'r eithriadau presennol. Eglurwch eich rhesymau.**

Nid ydym o'r farn y byddai llai o wastraff yn cyrraedd safleoedd tirlenwi pe ceid gwared ar unrhyw un o'r eithriadau presennol ac na fyddai hynny chwaith yn annog rheoli gwastraff yn wahanol. Er enghraifft, ychydig o ddewis sydd yna ar gyfer trin a gwaredu deunydd wedi'i garthu. Pan na ellir cael gwared ar ddefnydd wedi garthu ar lannau afonydd neu ei adfer, y dewis mwyaf priodol yw ei waredu ar safleoedd tirlenwi. Ni fyddai cael gwared ar yr eithriad hwn yn arwain at lai o wastraff yn cael ei anfon i'w waredu ond gallai gynyddu costau awdurdodau cyhoeddus sydd â chyfrifoldeb am garthu dyfrffyrdd.

Rydym ni hefyd o'r farn fod yna fanteision mewn sicrhau dulliau cyson a chadw'r eithriadau rywbeth yn debyg ym mhob rhan o'r DU.

## **Cwestiwn 13; A oes yna achos dros ddiddymu neu newid y gostyngiad disgownt dŵr Eglurwch eich ymateb.**

Byddwn yn cefnogi Llywodraeth Cymru pe byddai'n ystyried newid y gostyngiad disgownt dŵr, yn argymhell cynnal dadansoddiad cost a budd ac yn ystyried pa bryd y gellid gwneud hynny. Mae'r system bresennol yn annog ychwanegu dŵr at wastraff, sy'n arwain at fwy o ddŵr yn gollwng y bydd angen ei drin er mwyn gwarchod yr amgylchedd. Gallai'r gostyngiad disgownt dŵr hefyd arwain at ymarfer gwael wrth i weithredwyr beidio â thrin gwastraff yn briodol cyn ei anfon i gael ei dirlenwi.

Fodd bynnag, rydym ni o'r farn y byddai'n briodol cadw'r gostyngiad disgownt dŵr o dan rai amgylchiadau, er enghraifft, os yw dŵr wedi'i ychwanegu at ludw i gadw llwch i lawr neu wrth waredu defnyddiau wedi'u difrodi gan dân. Byddwn yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried a ellid cyfyngu ar y gostyngiad disgownt dŵr i wastraff a / neu amgylchiadau penodol.

## **Cwestiwn 14: A ydych chi o'r farn fod yna achos i gyflwyno unrhyw eithriadau neu ostyngiadau newydd, ac, os oes, beth a pham?**

Rydym ni o'r farn y gallai fod yna werth mewn cynnwys gwastraff sefydlog, anadweithiol, megis Asbestos a Gypswm, yn y rhestr o eithriadau o'r dreth gwaredu drwy dirlenwi. Mae tirlenwi yn ddewis pwysig ac addas ar gyfer gwaredu'r ddau lif gwastraff. Ychydig o gyfleusterau ar gyfer gwaredu asbestos sydd yng Nghymru a does yna'r un ar gyfer gwaredu gypswm. Gan fod angen trin y ddau yn hynod o ofalus, maen nhw'n fwy tebygol o gael eu tipio'n anghyfreithlon a / neu eu camddisgrifio'n fwriadol sy'n arwain at eu trin yn amhriodol gan beryglu'r amgylchedd ac iechyd pobl. Gallai cyflwyno anogaeth i'r gwastraff penodol hyn gael eu hystyried yn gymwys annog ei drin yn gyfrifol.

Byddwn hefyd yn cefnogi cyflwyno eithriad i awdurdodau cyhoeddus, megis Cyfoeth Naturiol Cymru ac Awdurdodau Lleol, sydd â'r cyfrifoldeb o glirio a gwaredu gwastraff sy'n cael ei dipio'n anghyfreithlon a'i adael yn anghyfreithlon. Byddai hyn yn ysgafnhau'r baich ariannol ar y pwrs cyhoeddus a allai olygu y byddai gwastraff yn cael ei glirio ynghynt.

## **Pennod 3: Cydymffurfiad a Gorfodaeth**

### **Cwestiwn 15: Beth fyddai canlyniadau ymarferol gosod dyletswydd ar weithredwyr safleoedd tirlenwi i ddefnyddio pontydd pwysu pan fo rhai ar gael ac yn gweithio ar neu gerllaw safleoedd tirlenwi gyda chosb briodol am beidio â gwneud hynny?**

Rydym ni o'r farn na fyddai unrhyw broblemau'n codi, yn ymarferol, o osod dyletswydd ar weithredwyr i ddefnyddio pontydd pwysu. Rydyn ni ar ddeall fod pont bwysu ar bob safle tirlenwi yng Nghymru sydd â thrwydded.

Rydym ni'n sylweddoli y gallwn ni, drwy ein gweithgareddau cydymffurfio, ddod ar draws toriadau o'r dyletswydd hwn a byddwn yn sicrhau bod yr wybodaeth yn cael ei rhannu gyda'r corff priodol.

### **Cwestiwn 16: Beth, yn ymarferol, fyddai canlyniadau ymestyn y diffiniad o safleoedd tirlenwi i gynnwys, o fewn cwrpawd y dreth, leoedd lle mae gwastraff wedi'i adael yn anghyfreithlon.**

Rydym ni o'r farn y gallai cyflwyno hyn fod yn anogaeth ychwanegol i beidio â thipio gwastraff yn anghyfreithlon. Fodd bynnag, dylai Llywodraeth Cymru gofio na fyddai hyn yn effeithiol oni bai y gellir casglu digon o dystiolaeth i lwyddo mewn achos gorfodaeth.

Mae yna rai agweddau ymarferol rydym ni'n argymhell y dylai Llywodraeth Cymru eu hystyried ymhellach, megis:

- materion ymarferol ynghylch asesu gwastraff sydd wedi'i dipio'n anghyfreithlon; a fyddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bob achos o dipio anghyfreithlon gael ei asesu a phwy a fydd yn gyfrifol am hynny?
- Deddf Enillion Troseddau - rydym ni'n defnyddio ffigurau costau a arbedwyd (gwaredu'n gyfreithlon) i brofi budd troseddol. Byddai'n gosb ddeublyg disgwyl i Ddiffinydd dalu Gorchymyn Atafaelu yn seiliedig ar ei fudd troseddol ac yna disgwyl iddo hefyd dalu'r trethiant, sydd, mewn gwirionedd yn dod o dan ddarpariaethau'r Ddeddf Enillion Troseddau. Gallai eithrio gwaredu cyfreithlon leihau cyfanswm y buddion a asesir, a gallai hynny leihau faint o arian a fyddai'n daladwy o dan orchymynion atafaelu ac, felly, leihau faint o arian fyddai'n cael ei adfer gan y rheoleiddwr.

### **Cwestiwn 17: Oes yna drafferthion yn codi gyda'r trefniadau cosbi presennol ac, os oes, sut y gellid eu datrys?**

Does gennym ni ddim profiad o'r drefn gosbi, ond byddwn yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried datblygu neu weithredu cynllun cosbi yn unol ag egwyddorion Hampton<sup>1</sup>, fel â ganlyn;

#### **Chwe Egwyddor Cosbi**

Dylai cosb:

- Anelu at newid ymddygiad y troseddwr;
- Anelu at ddiddymu unrhyw fantais neu fudd ariannol o beidio â chydymffurfio
- Bod yn ymatebol ac ystyried beth sy'n briodol ar gyfer y troseddwr penodol ac o ran y mater rheoleiddiol, sy'n gallu cynnwys cosb a'r gwarth cyhoeddus a ddylai fod yn gysylltiedig â dedfryd droseddol.
- Bod yn gymesur â natur y drosedd a'r niwed a achoswyd;
- Anelu at adfer y niwed a achoswyd drwy ddiffyg cydymffurfiad rheoleiddiol, os yn briodol, ac
- Anelu at atal rhagor o ddiffyg cydymffurfiad.

#### **Saith nodwedd trefn gosbi lwyddiannus**

Dylai rheoleiddwyr:

---

<sup>1</sup>Adroddiad Hampton

<http://www.publications.parliament.uk/pa/cm201213/cmselect/cmspeak/1069/106911.htm>

- Gyhoeddi polisi gorfodi;
- Mesur canlyniadau, nid mewnbynau'n unig;
- Cyfiawnhau eu dewis o waith gorfodi flwyddyn ar ôl blwyddyn i randdeiliaid, Gweinidogion a'r Senedd;
- Gwaith gorfodi dilynol, os yn addas;
- Gorfodi mewn ffordd dryloyw;
- Bod yn dryloyw yn y ffordd y maen nhw'n cymhwyso ac yn penderfynu ar gosbau gweinyddol; a
- Pheidio â chyflwyno anogaeth wrthnysig a allai ddylanwadu ar y dewis o ymateb cosbi.

**Cwestiwn 18: A oes angen rhagor o waith cydymffurfio yn y maes, yn hytrach na thu ôl i ddesg? Os 'oes', eglurwch eich barn a chyflwynwch dystiolaeth / eglurwch fanteision hynny os yn bosibl.**

Yn ôl ein barn ni, ychydig o waith cydymffurfio yn y maes sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd ac efallai nad yw hynny'n ffurfio fframwaith reolaethol effeithiol. Rydym ni'n cefnogi dyhead Llywodraeth Cymru i gynyddu cydymffurfiaid gyda'r drefn drethiant ac o'r farn fod yna fudd sylweddol mewn cynnal gwaith cydymffurfiaid yn y maes. Byddai hynny'n galluogi swyddog i gadarnhau cydymffurfiaid ac i gymharu ymarfer gwirioneddol ar safleoedd gyda dogfennau rheoli a chofnodion y safleoedd hynny. Rydym ni hefyd o'r farn bod yn rhaid cael presenoldeb yn y maes er mwyn cadarnhau bod profion Colli wrth Danio yn cael eu cynnal yn briodol.

Rydym ni hefyd yn cydnabod y byddai cael trefn o sicrhau cydymffurfiaid effeithiol â'r dreth o gymorth i warchod yr amgylchedd, er enghraifft, byddai sicrhau bod gweithredwyr gwastraff yn disgrifio gwastraff gweithredol ac anweithredol yn gywir, yn sicrhau y codir y lefel briodol o dreth a hefyd bod y gwastraff yn cael ei reoli'n briodol. Hefyd, drwy annog gwahanu gwastraff yn fwy effeithiol yn ei ffynhonnell, cyn ei drin, byddai'n haws ei ailgylchu ac adfer rhai defnyddiau.

Byddwn yn dal i weithio gyda Llywodraeth Cymru i drafod pa swyddogaeth y gallwn ni ei chyflawni mewn gwaith cydymffurfio neu orfodaeth gyda'r drefn hon er mwyn sicrhau ein bod yn cael ein hariannu'n llawn a bod yna ddigon o wybodaeth a sgiliau cadarn i'n galluogi ni i wneud y gwaith yn effeithiol.

**Cwestiwn 19: A oes yna unrhyw beth arall y gallai Llywodraeth Cymru ei wneud i ddefnyddio ei bwerau trethu newydd i wella cydymffurfiaid a gorfodaeth a lleihau effeithiau osgoi talu'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Os 'oes', disgrifiwch beth allai'r gwaith hwnnw fod.**

Rydym ni'n cydnabod bod yna gyfle, wrth ymgymryd â'r gwaith hwn, i gael canlyniadau a fyddai o fudd i bawb. Mae enghreifftiau'n cynnwys rhannu a chydlynu gwybodaeth, ac, efallai leihau'r baich gweinyddol ar fusnesau drwy ffurfio polisiau newydd. Byddwn yn dal i weithio gyda chi i drafod y cyfleoedd hyn drwy gael ein cynrychioli ar eich Bwrdd Prosiect a'r Grŵp Arbenigwyr Technegol.

**Cwestiwn 20: Yn eich barn chi, oes yna dystiolaeth o osgoi'r Dreth Tirlenwi bresennol, a beth yw natur hyn:**

Nid oes gennym ni unrhyw dystiolaeth o osgoi'r dreth.

## **Pennod 4: Gweinyddu**

**Cwestiwn 21: A fydddech chi'n cefnogi cael y cyfnod ffurflenni cofnodion treth i gyd-fynd â'r flwyddyn ariannol? Eglurwch eich rhesymau.**

Byddwn, fe fyddwn ni'n cefnogi cael y cyfnod ffurflenni treth i gyd-fynd â'r flwyddyn ariannol. Mae gofyn i weithredwyr tirlenwi gyflwyno crynodeb bob chwarter o'r gwastraff sy'n cael ei dderbyn ar eu safleoedd, mae hyn yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth i gadarnhau a yw'r ffurflenni treth yn gywir ai peidio. Byddai cael y ddau gyfnod i gyd-fynd yn gwneud hyn yn haws.

**Cwestiwn 22: Beth fyddai goblygiadau ymarferol mynnu bod codau'r Catalog Gwastraff Ewropeaidd yn cael eu defnyddio wrth gwblhau'r ffurflenni treth?**

Byddwn yn cefnogi defnyddio codau'r Catalog Gwastraff Ewropeaidd i lenwi'r ffurflenni treth. Hon yw'r system ddsbarthu sy'n cael ei defnyddio at ddibenion rheoleiddio gwastraff a hi yw sail y ffurflen crynodeb gwastraff a grybwyllir uchod. Byddai defnyddio'r un system ddsbarthu ar gyfer y ddwy ffurflen yn ei gwneud yn haws i gadarnhau'r wybodaeth.

Rydym ni wedi amlygu'r gwahaniaeth mewn categoreiddio anweithredol (at ddibenion treth) a gweithredol (at ddibenion rheoleiddio gwastraff). Byddai defnyddio'r categorïau Catalog Gwastraff Ewropeaidd ar gyfer y rhestr anweithredol o gymorth i oresgyn y gwahaniaeth hwn. Bydd yn anos trosi rhai codau, er enghraifft 19 12 12 - Gwastraff arall (gan gynnwys cymysgedd o ddefnyddiau) ar ôl trin gwastraff yn fecanyddol.

**Cwestiwn 23: Sut allai Llywodraeth Cymru symleiddio a moderneiddio llenwi ffurflenni treth, gan gynnwys gwella cefnogaeth electronig ac ar lein.**

Rydym ni'n cydnabod ei bod yn debyg y bydd llawer llai o safleoedd tirlenwi yng Nghymru erbyn 2018 ac y bydd costau datblygu system electronig yn rhywbeth y bydd Llywodraeth Cymru'n ei ystyried. Fe fyddwn ni'n fodlon iawn rhannu ein profiadau, ar ôl i ni wahanu oddi wrth Asiantaeth yr Amgylchedd, o ddatblygu system gyfrifiadurol newydd ar gyfer trwyddedau a ffurflenni gwastraff. Rydym ni wedi datblygu pensaernïaeth gyffredinol ein systemau cyfrifiadurol ar gyfer rheoleidido fel rhai modiwlwr a fydd yn gallu dygymod â swyddogaethau eraill os bydd gofyn, gan gynnwys dilysu awtomatig neu wiriadau sicrwydd ansawdd. Yn ein profiad ni, mae hyn yn ffordd gost effeithiol o ddarparu system electronig.

**Cwestiwn 24: A ddylid cynnig rhyddhad rhag drwg ddyledion ac, os dylid, o dan ba amgylchiadau?**

**Cwestiwn 25: A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar sut y mae'r adolygiadau mewnol a'r darpariaethau apêl yn gweithio ar hyn o bryd o ran y Dreth Tirlenwi, gan gynnwys, yn benodol, y bobl sydd â hawl i ofyn am adolygiad neu i apelio?**

**Cwestiwn 26: Yn eich barn chi, a oes yna unrhyw amgylchiadau eithriadol pan fyddai trethdalwyr yn gallu gohirio talu'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi nes y daw eu hapêl i ben?**

Nid oes gennym ni unrhyw sylwadau ar y cwestiynau hyn.

## **Pennod 5: Lles Cymunedol**

**Cwestiwn 27: A ddylai Llywodraeth Cymru ddyrannu cyfran o refeniw Treth Gwarediadau Tirlenwi i wella lles cymunedau?**

Byddwn yn rhoi cefnogaeth gref i ddyrannu cyfran o refeniw'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi i wella lles cymunedau.



**Cwestiwn 28: Os bydd Llywodraeth Cymru yn dyrannu cyfran o refeniw'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi i wella lles cymunedol, pa rai o'r gweithgareddau canlynol ddylai gael arian, a pham?**

- Cefnogi cydymffurfiad a gorfodaeth a lleihau effeithiau troseddau gwastraff
- Cefnogi lleihau gwastraff a dargyfeirio gwastraff rhag tirlenwi
- Mentrau bioamrywiaeth a gwelliannau amgylcheddol ehangach
- Taclo tloidi ac amddifadedd mewn cymunedau
- Arall (nodwch)

Byddwn yn cefnogi defnyddio refeniw'r Dreth ar gyfer gwaith cydymffurfio a gorfodi, gan gydnabod y gallai trefn orfodi effeithiol wella lles cymunedol yn gyffredinol. Rydym yn ymwybodol o lwyddiant Asiantaeth yr Amgylchedd, sydd wedi gallu lleihau troseddau gwastraff ar ôl derbyn rhagor o arian, gallai hyn hefyd arwain at gasglu mwy o'r dreth.

Rydym hefyd yn cydnabod ac yn cefnogi defnyddio'r arian hwn i daclo tloidi ac amddifadedd drwy fentrau bioamrywiaeth a gwelliannau amgylcheddol ehangach. Mae yna lawer iawn o enghreifftiau o'r buddion ehangach i gymunedau sydd ag amgylchedd iach, yn drefol ac yn wledig. Felly, byddai croeso mawr i weithgareddau sy'n annog manteiso ar leoedd da yn yr awyr agored, gwaith gwella amgylcheddol, adfer cynefinoedd a gwella bioamrywiaeth. Maen nhw'n bwysig i gymunedau ardaloedd yn ogystal ag i ecosystemau ehangach. Un enghraifft o sut y gellid defnyddio'r arian, yn ein barn ni, yw creu coedlannau mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol difrifol. Byddai hyn yn arwain at adfer hen ardaloedd diwydiannol ac hefyd yn hyrwyddo'r rhaglen iechyd a lles drwy ddarparu mannau gwyrdd agored, deniadol. Gallai hyn arwain at adfywiad economaidd, cyfleoedd i liniaru llifogydd ac addysg yn y gymuned. Mae nifer o'r safleoedd sy'n cael eu hystyried ar gyfer gwaith bob blwyddyn yn rhai a oedd yn ymdrin â gwastraff (e.e. hen safleoedd tirlenwi neu waredu wedi cau).

Rydym ni wedi elwa'n uniongyrchol o ychydig o arian y Gronfa Gymunedol Tirlenwi a byddwn yn gobeithio dal i fod yn gymwys i'w gael, ond rydym ni hefyd yn cydnabod mor bwysig yw'r arian hwn i bartneriaid yn y trydydd sector sy'n gwneud gwaith bioamrywiaeth a chymunedol.

**Cwestiwn 29: Oes gennych chi unrhyw syniadau ar gyfer y model gweinyddol posibl?**

Rydym ni o'r farn bod yna gyfleoedd i symleiddio ac i weinyddu'r gronfa'n fwy effeithlon, yn enwedig gan ein bod yn sylweddoli mai dim ond tua £1 miliwn yw cyfanswm y gronfa, a'i bob yn lleihau. Y model y gallai fod yn werth ei ystyried yw Cronfa yr Ardoll Agregau Llywodraeth Cymru, gyda phanel asesu traws sector gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Gweithredwyr Tirlenwi, Cyfoeth Naturiol Cymru a phartïon eraill, ond rydym ni hefyd o'r farn fod yn rhaid cael amserlen hyblyg er mwyn galluogi partneriaid i ganfod arian cyfatebol a 'chyfraniadau trydydd partïon'.